

Arsylwi ar Ansawdd (COVID-19) AGIC | HIW Quality Insight (COVID-19)



[Cymraeg](#) / [English](#)

- [Arsylwi ar Ansawdd \(COVID-19\)](#)
- [Crynodeb o'r Gwaith a Wnaed](#)
- [COVID-19 o Safbwynt Gofal Iechyd](#)
- [Beth rydym wedi'i ddysgu?](#)
- [Ysbytai'r GIG](#)
- [Ysbytai Annibynnol](#)
- [Unedau Iechyd Meddwl](#)
- [Meddygfeydd](#)
- [Clinigau Annibynnol](#)
- [Adborth](#)
- [Quality Insight \(COVID-19\)](#)
- [Activity Summary](#)
- [COVID-19 Healthcare Perspective](#)
- [What have we learned?](#)
- [NHS Hospitals](#)
- [Independent Hospitals](#)
- [Mental Health Units](#)
- [General Practice \(GP\)](#)
- [Independent Clinics](#)
- [Feedback](#)

Arsylwi ar Ansawdd (COVID-19)

Drwy gydol pandemig COVID-19, ein hymrwymiad parhaus yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) fu sicrhau bod pobl Cymru yn derbyn gofal o ansawdd da, a ddarperir yn ddiogel ac yn effeithiol, yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal a'r rheoliadau.

Dyma ein hail Fwletin Arsylwi ar Ansawdd, yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr. Cyhoeddwyd ein **Bwletin Arsylwi ar Ansawdd** cyntaf ar 18 Rhagfyr 2020, ac roedd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst a mis Hydref 2020.

Diben ein bwletin Arsylwi ar Ansawdd yw tynnu sylw at ganfyddiadau allweddol ein gwaith, gan gynnwys ymgysylltu â darparwyr gofal iechyd, a'r wybodaeth arall sydd gennym. Y nod yw helpu gwasanaethau gofal iechyd i wella drwy rannu ein canfyddiadau, gan ganolbwyntio ar arferion da a'r gwersi a ddysgwyd, fel bod gwasanaethau yn gallu nodi hynny ac ymaddasu'n briodol, ar adeg mor heriol nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen.

Mae'r canfyddiadau hyn yn bennaf seiliedig ar ein proses bresennol o sicrhau ansawdd, drwy ein **Gwiriadau Ansawdd**, a nodi themâu cadarnhaol, arferion da a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg. Caiff ein Gwiriadau Ansawdd eu cynnal oddi ar y safle yn gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

- Atal a rheoli heintiau
- Llywodraethu (yn benodol o ran staffio)
- Yr amgylchedd gofal.

Yn ôl i'r brig

Crynodeb o'r Gwaith a Wnaed

O ganlyniad i'r pwysau sylweddol a wynebwyd gan wasanaethau'r GIG yn ystod ail don pandemig COVID-19, gwnaethom oedi ein Gwiriadau Ansawdd a'n Harolygiadau rheolaidd yn y GIG rhwng 24 Rhagfyr a mis Chwefror 2021.

Gwnaethom gynnal 28 o Wiriadau Ansawdd rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, yn cynnwys:

- 3 o Ysbytai'r GIG
- 3 Ysbyty Annibynnol (yn cynnwys un hosbis)
- 5 o leoliadau Iechyd Meddwl y GIG (yn cynnwys un lleoliad Anableddau Dysgu)
- 6 lleoliad Iechyd Meddwl Annibynnol
- 5 Meddygfa
- 6 Chlinig Annibynnol.

Er i'n rhaglen arolygu arferol gael ei gohirio ar ddechrau pandemig COVID-19, rydym wedi parhau i gynnal rhai arolygiadau ar y safle mewn ymateb i bryderon neu wybodaeth yn awgrymu y gallai cleifion fod mewn perygl mawr. Fodd bynnag, dim ond lle na fu'n bosibl cael sicrwydd na thystiolaeth mewn unrhyw ffordd arall y gwnaed hyn, a chynhaliwyd asesiad risg llawn er mwyn cadw ein staff yn ddiogel.

Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, ac yn sgil pryderon difrifol y cafodd AGIC wybod amdanynt, gwnaethom gynnal arolygiadau ar bedwar safle. Cynhaliwyd y rhain mewn tri lleoliad iechyd meddwl annibynnol ac un practis deintyddol. Gwnaethom hefyd gynnal un arolygiad o bell, fel rhan o'n rôl statudol yn monitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Pan gaiff yr adroddiadau eu cyhoeddi, maent i'w gweld ar ein gwefan.

Yn ôl i'r brig



COVID-19 o Safbwynt Gofal Iechyd

O fis Tachwedd i fis Ionawr, wynebodd gwasanaethau gofal iechyd ledled Cymru heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen, wrth ymateb i ail don pandemig COVID-19. O ganlyniad, bu'r gweithlu dan fwy o bwysau, yn darparu gofal iechyd dan amgylchiadau eithriadol o heriol. Felly, unwaith eto, hoffem gydnabod a chymeradwyo'r holl staff sydd wedi parhau i weithio'n ddiflino drwy gydol y cyfnod heriol hwn, i ddarparu gofal o ansawdd da i gleifion.

Mae'r staff wedi parhau i ddisgrifio'r ffyrdd newydd o weithio a roddwyd ar waith ers dechrau'r pandemig, a chlywsom am y modd rhagweithiol y mae gwasanaethau wedi cael eu haddasu er mwyn cadw cleifion a'r staff yn ddiogel. Ar y cyfan, mae ein canfyddiadau'n gadarnhaol iawn, ac maent yn dangos y natur benderfynol a'r ymroddiad a ddangoswyd gan ddarparwyr gofal iechyd yng Nghymru i barhau i ddarparu gofal diogel.

Roedd lansio'r rhaglen frechu genedlaethol ym mis Ionawr yn gam sylweddol tuag at adfer o bandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd buddiannau'r rhaglen frechu yn cymryd sawl mis i gael eu cyflawni'n llawn. Bydd y staff yn parhau i weithio dan gryn bwysau am beth amser, gyda phosibilrwydd cryf y caiff hyn effaith ar eu hiechyd a'u llesiant. Felly, rydym yn annog byrddau iechyd, ymddiriedolaethau a darparwyr gwasanaethau i sicrhau bod trefniadau i gefnogi llesiant y staff yn cael eu blaenoriaethu a'u hyrwyddo'n eang.

Yn ôl i'r brig

Beth rydym wedi'i ddysgu?

Ysbytai'r GIG



Yr Amgylchedd

O ganlyniad i'r pandemig, gorfodwyd byrddau iechyd i gyflwyno nifer o welyau ychwanegol i ffwrdd o'u lleoliadau ysbyty arferol, gan addasu cyfleusterau nad ydynt yn rhai ar gyfer gofal iechyd fel ysbytai maes. Cafodd y rhain eu hadeiladu'n gyflym iawn, a arweiniodd at risgiau o ran yr amgylchedd a'u haddasrwydd ar gyfer gofal a diogelwch cleifion. Felly, datblygwyd dull arolygu yn

archwilio'r modd y caiff y risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant cleifion eu rheoli, a gwnaethom gynnal dau arolygiad mewn dau safle ysbyty maes dros dro ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Nododd yr arolygiadau o'r ysbytai maes fod prosesau priodol ar waith ar y cyfan i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dystiolaeth o waith cynllunio helaeth gan y bwrdd iechyd er mwyn paratoi ar gyfer darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion mewn amgylcheddau unigryw. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a staff a oedd yn frwdfrydig ac yn ymrwymedig i'r rolau.

Tynnodd ein Gwiriadau Ansawdd rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr sylw at y gwaith parhaus helaeth i ailgynllunio wardiau ysbytai ac amgylcheddau unedau, er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Mae hyn yn cynnwys defnyddio parthau lliw i wahanu cleifion COVID-19 a chleifion nad oes ganddynt COVID-19, a helpu i reoli'r broses o dderbyn cleifion sydd â COVID-19 yn ddiogel. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y gyfradd trosglwyddo COVID-19 yn ystod yr ail don yn tynnu sylw at yr angen am reolaethau amgylcheddol llym parhaus, fel sicrhau bod cleifion a'r staff yn cadw pellter cymdeithasol diogel lle y bo modd, a chynnal mesurau Atal a Rheoli Heintiau llym.

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, mae cleifion wedi cael dyfeisiau electronig personol i helpu i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty, ac mae hyn wedi bod yn hanfodol i helpu i leihau'r gofod a'r unigrwydd y gall cleifion neu eu teuluoedd eu profi. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod hyn wedi ychwanegu at y llwyth gwaith sylweddol oedd gan y staff clinigol yn yr ysbytai eisoes. Dylai byrddau iechyd ystyried y ffordd fwyaf effeithlon o reoli'r trefniadau hyn er mwyn helpu i leihau'r baich ar y staff clinigol.

Atal a rheoli heintiau

Mae trefniadau atal a rheoli heintiau priodol ac effeithiol yn parhau i fod yn hollbwysig yn ystod y pandemig. Dros y misoedd diwethaf, gwelwyd achosion o COVID-19 yn effeithio ar fwy o ysbytai. Felly, mae'n hanfodol bod achosion yn cael eu rheoli'n effeithiol. Dylid nodi ffynonellau achosion lle y bo modd, a chymryd camau i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 ymhellach.



Eto, rydym wedi gweld enghreifftiau o arferion gwaeth wrth gyflawni camau gweithredu yn deillio o asesiadau risg ac archwiliadau, yn cynnwys archwiliadau atal a rheoli heintiau. Roedd hyn yn cynnwys rhai meysydd sylfaenol, fel glendid a chyflwr rhai ardaloedd clinigol, a'r angen i'r staff gadw pellter cymdeithasol. Mae'n bwysig bod byrddau iechyd yn ystyried hyn, er mwyn sicrhau bod camau gwella prydol yn cael eu cymryd a sicrhau bod prosesau atal a rheoli heintiau yn gweithio'n effeithiol i gadw eu staff a'u cleifion yn ddiogel ac iach.

Llywodraethu

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, mae'r effaith andwyol a gaiff pandemig COVID-19 ar y staff, yn sgil pryder a blinder cysylltiedig, yn gryn bryder. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelsom ragor o achosion o hyn oherwydd cynnydd yn y pwysau a'r gofynion eithriadol ar y staff. Yn ogystal, gwnaed defnydd uchel o staff dros dro ym mhob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod y nifer gofynnol o staff yn gweithio yno. Weithiau, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn llwyth gwaith y staff parhaol, y gall fod angen iddynt gynorthwyo'r staff dros dro. Felly, mae'n hanfodol bod adrannau a byrddau iechyd yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi'n llawn drwy sesiynau goruchwylio rheolaidd, sgysiau llesiant, a gallu cymryd amser i ffwrdd pan fydd angen.

Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol wedi parhau i fod yn her mewn rhai lleoliadau oherwydd anawsterau wrth roi hyfforddiant wyneb yn wyneb, a chynnydd mewn pwysau gwaith. Gwelsom hefyd mewn rhai lleoliadau, nad yw'r staff yn cael amser ar eu rota i gwblhau hyfforddiant, a bod disgwyl iddynt wneud hyn yn eu hamser eu hunain. Mae hyn yn rhoi rhagor o bwysau ar y gweithlu mewn cyfnod heriol iawn. Gallai methu â rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i staff arwain at arferion anniogel, a rhoi'r cleifion mewn mwy o berygl, felly mae'n bwysig bod pob bwrdd iechyd yn anelu at sicrhau bod ei weithlu yn cael hyfforddiant amserol sy'n briodol i'r rolau a gyflawnir.

Roedd yn galonogol gweld enghreifftiau o'r arfer o geisio adborth gan gleifion yn cael ei adfer ar ôl oedi ar ddechrau pandemig COVID-19. Gwnaethom nodi un lleoliad lle cynhaliwyd arolwg peilot dros y ffôn o gleifion a oedd newydd gael eu rhyddhau o'r Uned Dibyniaeth Uchel. Roedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn a helpodd hyn i roi hwb i forâl y staff. Rydym yn cydnabod bod hyn yn enghraifft o arferion da, a byddem yn annog byrddau iechyd i ystyried sut y gallant gynyddu ymdrechion i gael adborth ynghylch profiad cleifion, fel modd o wella gwasanaethau a rhoi adborth i'r gweithlu.

Yn ôl i'r brig

Ysbytai Annibynnol



Yr Amgylchedd

Mae ysbytai annibynnol wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r GIG fel amgylcheddau heb COVID-19, a ddefnyddir ar gyfer llawdriniaethau sensitif o ran amser a thriniaethau diagnostig. Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, gwelsom dystiolaeth o'r cydberthnasau gweithio cadarnhaol sydd wedi datblygu yn ystod pandemig COVID-19 rhwng ysbytai annibynnol ac ysbytai'r GIG.

Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau lle cafodd gweithdrefnau gweithredu safonol eu llunio ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol, i ddatblygu protocolau a gweithdrefnau mewn perthynas ag amgylcheddau diogel a gwisgo a dros Cyfarpar Diogelu Personol (PPE). Mae'r dull cydweithredol hwn wedi helpu i sicrhau capasiti ychwanegol er mwyn rhoi triniaeth amserol ar gyfer cyflyrau iechyd penodol mewn amgylchedd diogel.

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, cyflwynwyd trefniadau cadarn mewn ysbytai annibynnol ar gyfer cynnal profion COVID-19, a gofynnwyd i gleifion hunanynysu cyn iddynt ddod i'r ysbyty. Roedd yn galonogol gweld bod y trefniadau hyn wedi parhau i weithio'n effeithiol, gan na welwyd unrhyw achosion o COVID-19 ymysg cleifion rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr.

Atal a Rheoli Heintiau

Ar y cyfan, gwnaethom barhau i weld bod trefniadau da ar waith mewn ysbytai annibynnol i atal a rheoli heintiau'n briodol, a helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Mae hyn yn cynnwys trefniadau ar gyfer profion COVID-19 rheolaidd, asesiadau risg, archwiliadau atal a rheoli heintiau, gweithdrefnau glanhau gwell a sicrhau bod PPE priodol ar gael i'r staff.

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, gwnaethom nodi drwy ein proses digwyddiadau hysbysadwy bod nifer bach o'r staff wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer COVID-19 mewn un ysbyty annibynnol. Ers hyn, mae'r gwasanaeth wedi ein sicrhau ei fod wedi ymchwilio i'r digwyddiad ac wedi ymateb yn briodol, gan roi hyfforddiant ychwanegol i'r holl staff. Mae'n hanfodol bod pob aelod o'r staff yn cael ei atgoffa'n rheolaidd o sut i ddefnyddio PPE yn gywir, a bod angen cadw pellter cymdeithasol wrth ryngweithio â'i gilydd.



Llywodraethu

Mae'r effaith andwyl a gaiff pandemig COVID-19 ar y staff, yn sgil pryder a blinder cysylltiedig, yn gryn bryder. Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, gwelsom gynnydd yn yr achosion hyn yn sgil y pwysau parhaus a roddir ar y staff. Gwelsom fod ymyriadau cadarnhaol ar waith yn barhaus, er mwyn helpu i gynnal llesiant ac iechyd meddwl y staff. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ymarfer myfyriol a [Rowndiau Schwarts](#), lle mae staff o bob disgyblaeth yn cwrdd i fyfyrir ar agweddau emosiynol eu gwaith. Teimlwyd bod y dull hwn yn helpu'r staff i deimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn ystod y pandemig; felly, rydym yn annog rheolwyr ysbytai i archwilio hyn neu ddulliau tebyg, fel adnodd i helpu i gefnogi'r staff.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod hyfforddiant penodol ar COVID-19 wedi'i roi i'r staff. Fodd bynnag, fel y gellir ei ddisgwyl, mae'r ffaith na fu cyfleoedd i gael hyfforddiant wyneb yn wyneb a phwysau gwaith cynyddol wedi effeithio ar y gallu i gwblhau hyfforddiant gorfodol mewn rhai ysbytai. Dywedwyd wrthym fod e-ddysgu wedi cael ei annog i helpu â chydymffurfiaeth. Ynghyd â delio â'r llwyth gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r pandemig, mae angen cadw llygad gofalus ar gwblhau

hyfforddiant gorfodol. Gallai methu â rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i staff arwain at arferion annïogel, a rhoi'r cleifion mewn mwy o berygl, felly mae'n bwysig bod pob bwrdd iechyd yn anelu at sicrhau bod ei weithlu yn cael hyfforddiant amserol sy'n briodol i'r rolau a gyflawnir.

Yn ôl i'r brig

Unedau Iechyd Meddwl

Yr Amgylchedd

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, mae cleifion mewn rhai unedau iechyd meddwl, neu wardiau unigol, wedi cael eu dosbarthu fel un aelwyd at ddibenion rheoliadau'r coronafeirws. Roedd angen gwneud hyn am mai'r ward yw cartref y cleifion i bob pwrpas; byddai disgwyl i bobl sydd eisoes wedi'u cadw i orfod aros yn eu hystafelloedd gwely yn rhy gyfyngol ac yn anodd iawn i'w reoli, a gallai effeithio ar eu hadferiad. Mae'r dull hwn hefyd wedi galluogi gwasanaethau i barhau â'u harferion dyddiol, sydd wedi helpu i leihau gorbryder o fewn grwpiau cleifion a achoswyd gan y cyfyngiadau ehangach a roddwyd arnynt, fel llai o ryddid i adael.



Roedd yn galonogol iawn gweld bod ymdrechion parhaus yn mynd rhagddynt i ddatblygu mentrau a gweithgareddau ychwanegol i helpu i gefnogi cleifion sy'n teimlo'n ofnus, yn bryderus ac yn unig. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithgareddau grŵp, ac mewn un lleoliad, sefydlwyd siop ar y safle lle gallai'r cleifion brynu eu heitemau hanfodol eu hunain er mwyn helpu i roi rhywfaint o annibyniaeth iddynt. Gwelsom hefyd fod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd i gefnogi llesiant meddyliol a chorfforol y cleifion, drwy gynnal mwy o weithgareddau ar y safle fel ioga a gweithgareddau campfa yn yr awyr agored. Mae'r rhain yn hollbwysig er mwyn helpu i gefnogi iechyd cleifion mewn modd holistaidd, ac fel na welir mwy o ymddygiad heriol, a'r potensial o hunan-niwed am fod rhywun yn teimlo'n ofnus neu am ei fod wedi diflasu.

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf, rydym unwaith eto yn siomedig ac yn bryderus ynghylch y ffaith ein bod yn dal i nodi arferion anghyson mewn perthynas ag asesiad risg pwyntiau clymu mewn rhai lleoliadau. Mae hwn yn bryder sylweddol, yn arbennig mewn perthynas â chleifion sydd mewn mwy o berygl o hunan-niwedio. Rhaid rhoi prosesau cadarn ar waith, fel bod asesiadau risg pwyntiau clymu yn cael eu cwblhau'n amlach ym mhob lleoliad iechyd meddwl.

Atal a Rheoli Heintiau

Roedd yn gadarnhaol nodi, yn unol â chanllawiau iechyd y Cyhoedd, fod trefniadau lefel uwch wedi'u cyflwyno ledled Cymru, gyda'r nod o ostwng cyfraddau trosglwyddo COVID-19. Fodd bynnag, gwnaethom nodi enghreifftiau lle nad oedd hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer y staff i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â COVID-19. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar wisgo a diosg PPE yn ddiogel. Mae'n hanfodol bod pob aelod o staff yn cael yr hyfforddiant hwn er mwyn sicrhau bod ganddynt y ddealltwriaeth a'r cymhwysedd angenrheidiol mewn perthynas â defnydd diogel o PPE, er mwyn cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.



Ar y cyfan, gwelwyd bod mwy o weithdrefnau glanhau ar waith ym mhob lleoliad er mwyn cynnal diogelwch y cleifion a'r staff. Fodd bynnag, mewn un lleoliad, gwelsom fod prinder staff yn y tîm glanhau domestig wedi golygu y bu'n rhaid i'r tîm nyrsio ymgymryd â dyletswyddau glanhau, ar ben eu

rôl er mwyn sicrhau bod y ward yn cael ei glanhau'n ddigonol. Mae hyn yn rhoi mwy o bwysau ar staff nyrsio ac yn eu tynnu oddi wrth eu prif rôl o roi gofal a thriniaeth i gleifion. Dylai darparwyr sicrhau bod ganddynt gynlluniau wrth gefn ar gyfer sicrhau staff glanhau ychwanegol, fel sydd ganddynt ar gyfer staff nyrsio a gweithwyr cymorth.

Rydym wedi parhau i weld achosion o COVID-19 yn codi mewn ysbytai iechyd meddwl ac anableddau dysgu annibynnol. Gall hyn fod yn sgil y lefelau cynyddol o drosglwyddiad cymunedol a welwyd rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Mae'n galonogol nodi na chafwyd unrhyw farwolaethau yn y lleoliadau hyn o ganlyniad i staff neu gleifion yn dal COVID-19, gyda'r mwyafrif o brofion cadarnhaol ymysg y staff yn hytrach na'r cleifion. Er hyn, mae'n hanfodol cynnal gwyliadwriaeth a sicrhau bod y trefniadau atal a rheoli heintiau yn ddigonol er mwyn cyfyngu ar y tebygolrwydd o achosion pellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion yn y [bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#) cyntaf i roi system profion rheolaidd ar waith ar gyfer ysbytai annibynnol. Mae [Strategaeth Brofi COVID-19 i Gymru](#), a gyhoeddwyd ddiwedd mis Ionawr 2021, yn ymrwmo i gynnal Profion Llif Unffordd ddwywaith yr wythnos ar bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol. Ar gyfer ysbytai annibynnol, mae hyn yn golygu y byddant yn gallu profi pob aelod o staff a phob claf ddwywaith yr wythnos ar y safle a chael canlyniadau o fewn 30 munud. Caiff hyn ei roi ar waith erbyn diwedd mis Chwefror 2020 a bydd yn helpu i ganfod staff sydd wedi cael canlyniad cadarnhaol ar gyfer COVID-19 asymptomatig ar unwaith.

Llywodraethu

Fel y nodwyd yn y [Bwletin Arsylwi ar Ansawdd](#), mae'r effaith andwyol a gaiff pandemig COVID-19 ar y staff, yn sgil pryder a blinder cysylltiedig, yn gryn bryder. Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, gwelsom gynnydd yn yr achosion hyn yn sgil y pwysau cynyddol ar y staff a'u llwyth gwaith. Felly, mae'n hanfodol bod ymyriadau cefnogol, er mwyn helpu i gynnal llesiant ac iechyd meddwl staff yn cael eu hyrwyddo, a bod y rheini sy'n manteisio ar y gefnogaeth hon yn cael eu monitro'n ofalus.

Mae cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dal i fod yn broblem i rai lleoliadau oherwydd y diffyg hyfforddiant wyneb yn wyneb. Gwnaed ymdrechion cadarnhaol i fynd i'r afael â hyn, sy'n cynnwys nodi opsiynau hyfforddiant ar-lein, a gwelwyd enghreifftiau o gynnal asesiad risg ar unrhyw hyfforddiant sydd heb ei gynnal a'i flaenoriaethu. Fodd bynnag, mae hyfforddiant gorfodol yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth uchel i ddarparwyr ei ystyried, yn enwedig mewn amgylcheddau lle ceir llawer o achosion o ymddygiadau heriol. Gallai methu â rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i staff arwain at arferion anniogel, a rhoi'r cleifion mewn mwy o berygl, felly mae'n bwysig bod pob bwrdd iechyd yn anelu at sicrhau bod ei weithlu yn cael hyfforddiant amserol sy'n briodol i'r rolau a gyflawnir.

Roedd yn galonogol gweld bod amrywiaeth o ddulliau newydd wedi cael eu cyflwyno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion am newidiadau i ganllawiau a gweithdrefnau. Mae hyn yn cynnwys argaeledd cyfarfodydd rheolaidd a chanllawiau hawdd eu darllen i gleifion, ac, mewn un lleoliad, cafodd y cleifion gefnogaeth drwy'r dull [straeon cymdeithasol](#). Teimlwyd bod y dull hwn yn helpu pryder a dealltwriaeth y cleifion, ac felly rydym yn annog darparwyr i archwilio hyn fel adnodd i helpu i roi cefnogaeth i gleifion.

Yn ôl i'r brig

Meddygfeydd

Yr Amgylchedd



Treuliwyd llawer o amser a gwnaed llawer o ymdrech er mwyn galluogi cleifion i barhau i gael cymorth gan eu meddygfa yn ystod y pandemig. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno apwyntiadau o bell, lle gall y cleifion hefyd anfon negeseuon e-bost a ffotograffau er mwyn osgoi'r angen i fynd i'r feddygfa yn ystod pandemig COVID-19. Roedd yn galonogol gweld lle roedd angen i gleifion gael apwyntiad wyneb yn wyneb, neu lle y gwnaethant ofyn am apwyntiad o'r fath, fod prosesau asesu risg cadarn ar waith i alluogi hyn. Mae'r dull newydd hwn wedi bod yn newid sylfaenol yn y

modd y mae meddygon teulu'n gweithredu, ac mae wedi bod yn hanfodol yn ystod pandemig COVID-19. Fodd bynnag, er inni weld cred gadarn bod y cleifion wedi croesawu'r newidiadau, rydym yn pryderu y caiff rhai carfanau o gleifion eu heithrio'n ddigidol, ac efallai na fyddant yn gallu cynnal galwad fideo. Felly, mae'n hanfodol bod y cleifion yn dal i allu siarad ag aelod o'r staff dros y ffôn, yn ogystal â'r dull ar-lein newydd.

Cwblhawyd asesiadau risg amgylcheddol penodol ar gyfer COVID-19 er mwyn nodi unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r amgylchedd er mwyn gwella trefniadau atal a rheoli heintiau. Gwelsom mewn rhai achosion fod hyn wedi arwain at newidiadau a oedd yn cynnwys gosod lloriau caled yn lle carpedi, a chael cadeiriau y gellir eu sychu'n lân yn lle seddi ffabrig er mwyn sicrhau gweithdrefnau glanhau effeithiol. Mae'n bwysig bod meddygfeydd yn ystyried hyn nawr ac yn y dyfodol, er mwyn cadw eu staff a'u cleifion yn ddiogel ac yn iach.

Mae meddygon teulu wedi parhau i gynnal ymweliadau cartref, ac mae trefniadau ar waith i roi pecynnau parod i glinigwyr er mwyn sicrhau bod cyfarpar addas a PPE wrth law yn rhwydd. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau o achosion lle na chafodd asesiad risg COVID-19 ei gynnal cyn i'r staff gwblhau ymweliad cartref. Felly, rydym yn argymhell y dylai meddygon teulu gynnal asesiad risg COVID-19 priodol cyn ymweliadau cartref, er mwyn help i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19.

Roedd nifer cyfyngedig o wasanaethau meddygon teulu wedi'u hatal dros dro yn ystod ton gyntaf y pandemig, fel clinigau fitamin B12 a chlinigau anadlol. Roedd yn galonogol gweld lle roedd clinigau wedi aildechrau, fod trefniadau wedi cael eu cyflwyno i reoli llif y cleifion er mwyn lleihau nifer y bobl a chyswllt corfforol â'r staff yn y practisau a'r meddygfeydd. Fodd bynnag, mae'n hanfodol sicrhau bod cleifion â chyflyrau cronig yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhesymeg dros unrhyw newidiadau i arferion meddyginiaeth, fel bod meddyginiaeth drwy'r geg yn cael ei rhoi yn lle pigladau B12, er mwyn helpu i leihau unrhyw bryder ymysg grŵp cleifion sydd eisoes yn agored i niwed.

Atal a Rheoli Heintiau

Mae trefniadau atal a rheoli heintiau priodol ac effeithiol yn parhau i fod yn hollbwysig yn ystod y pandemig. Roedd yn galonogol gweld bod nifer o newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith yn sgil COVID-19, er mwyn sicrhau bod safonau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys defnyddio asesiadau risg COVID-19, gweithdrefnau a hyfforddiant wedi'u diweddarau ar gyfer atal a rheoli heintiau, a chanllawiau ychwanegol i gynorthwyo staff i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion yn ystod y pandemig.

Roedd yn galonogol gweld bod trefniadau da ar waith i sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, ac y darparwyd hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio'n gywir yn gyffredinol. Mae hyfforddiant a gwybodaeth i staff ar atal a rheoli heintiau a PPE yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir o ran gwisgo a diosg PPE, a'u bod yn dilyn y prosesau perthnasol ar atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu cadw'n ddiogel.

Llywodraethu

Un ystyriaeth bwysig y mae angen ei ystyried yn ystod y pandemig yw llesiant staff. Mae'n amlwg bod staff wedi bod yn gweithio mewn amgylcheddau heriol iawn dros y misoedd diwethaf. O ganlyniad, rydym yn poeni y gall staff gofal iechyd fod wedi blino'n lân, ac yn teimlo'n ofidus iawn. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y gofynion ychwanegol newydd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn y practis i gyflwyno'r rhaglen frechu. Mae'n hanfodol bod pob meddyg teulu'n sicrhau ei fod yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi ei hun a'i weithlu drwy'r cyfnodau heriol hyn, sy'n cynnwys ymyriadau cadarnhaol er mwyn helpu i gefnogi llesiant ac iechyd meddwl pob aelod o staff.

Cynhaliwyd asesiadau risg er mwyn sicrhau bod y staff yn ddiogel i weithio yn y practis, ac mae systemau ar waith ar gyfer staff yr ystyrir eu bod yn wynebu risg. Roedd hyn yn cynnwys dull mwy hyblyg o weithio, sy'n galluogi staff i gydbwyso cyfrifoldebau teuluol a gofynion ynysu yn well gyda'u gwaith. Roedd yn galonogol gweld bod y staff wedi bod yn gweithio gartref pan oeddent yn gallu, er mwyn helpu i leihau nifer y bobl yn y practis.

Mae trefniadau clwstwr meddygon teulu wedi bod yn gweithio'n dda yn ystod y pandemig. Mewn rhai clystyrau, datblygwyd gwasanaeth asesu ar y cyd ar gyfer COVID-19, a ddarperir ar sail rota rhwng partneriaid meddygon teulu pob practis er mwyn cynnal gofal staff a chleifion. Gwelsom enghraifft gadarnhaol lle roedd un clwstwr wedi bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu menter newydd a oedd yn edrych ar batrymau atgyfeirio o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, er mwyn sicrhau bod lefelau gweithgarwch yn cael eu cynnal, yn enwedig mewn perthynas ag atgyfeirio cleifion canser. Rydym yn ystyried bod hyn yn enghraifft o arferion da, ac mae'n rhywbeth y dylai practisau eraill ei ystyried er mwyn helpu i sicrhau bod grwpiau o gleifion sy'n agored i niwed yn cael gofal amserol, ac er mwyn lleihau'r niwed ehangach posibl yn sgil COVID-19.

Yn ôl i'r brig

Clinigau Annibynnol

Yr Amgylchedd

Drwy gydol y pandemig, mae clinigau annibynnol ledled Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn eu hymateb, ac maent wedi addasu'n gyflym i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys cyflwyno apwyntiadau o bell er mwyn galluogi cleifion i gael ymgynghoriadau rhithwir, a thrafodaethau ynghylch triniaethau posibl. Roedd yn galonogol gweld bod y trefniadau hyn yn cynnwys prosesau diogel i gynnal prawf adnabod ar gleifion cyn ymgynghoriadau a chyn rhagnodi meddyginiaethau.



Gwnaed amrywiaeth o newidiadau amgylcheddol i sicrhau y gellir cadw pellter cymdeithasol diogel a helpu i liniaru achosion o groesheintio pan fydd staff a chleifion yn ymweld â'r clinig. Mae hyn yn cynnwys gostwng nifer y cleifion sy'n cael bod yn y clinig ar yr un pryd, a rhoi mwy o amser rhwng apwyntiadau. Gwelsom enghraifft dda o arloesedd lle y gwnaed addasiadau er mwyn galluogi clinigwyr i sicrhau y gellir mesur pwysau cleifion yn ddiogel, drwy brynu cloriannau Bluetooth. Mae hyn wedi galluogi'r rheolwr cofrestredig i gofnodi'r pwysau drwy ap wrth gadw pellter cymdeithasol oddi wrth y cleifion.

Atal a Rheoli Heintiau

Yn unol â chanllawiau lechyd y Cyhoedd, cyflwynwyd trefniadau lefel uwch mewn clinigau annibynnol, gyda'r nod o ostwng cyfraddau trosglwyddo COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys trefniadau i sicrhau bod staff yn gallu cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) priodol, a darparwyd hyfforddiant ar

sut i'w ddefnyddio'n gywir. Diweddarwyd polisïau atal a rheoli heintiau hefyd yn sgil COVID-19, a rhoddwyd hyfforddiant ychwanegol i staff ar atal a rheoli heintiau. Mae hyfforddiant a gwybodaeth i staff ar atal a rheoli heintiau a PPE yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau cywir o ran gwisgo a diosg PPE, a'u bod yn dilyn y prosesau perthnasol ar atal a rheoli heintiau er mwyn sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd yn galonogol gweld, mewn un lleoliad, fod arolwg COVID-19 wedi'i ddatblygu ar gyfer cleifion, ac roedd y canlyniadau'n dangos bod pob claf a gwblhaodd yr arolwg yn gadarnhaol iawn ac yn teimlo'n ddiogel ac yn hyderus ar ôl ei ymweliad â'r lleoliad. Mae hyn yn rhywbeth y dylai lleoliadau eraill ei ystyried, er mwyn cael adborth gan gleifion ynghylch eu gofal yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Llywodraethu

Rhaid ystyried llesiant staff yn ystod y pandemig. Mewn rhai clinigau annibynnol, mae'r timau staff yn fach iawn, ac mae trefniadau anffurfiol parhaus ar waith i drafod risgiau gweithio yn ystod pandemig COVID-19, a chynnal llesiant y staff. Fodd bynnag, mae'n naturiol y bydd gan y staff lefelau cynyddol o bryder a straen o bosibl, felly rydym yn annog cyflogwyr i sicrhau bod ymyriadau cefnogol ar waith er mwyn helpu i gynnal llesiant ac iechyd meddwl y staff.

Mae'r lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl, mae mynediad i hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig wedi bod yn heriol. Felly, rydym yn annog cyflogwyr i archwilio opsiynau ar-lein ar gyfer hyfforddiant ac e-ddysgu. Gallai methu â rhoi'r hyfforddiant diweddaraf i staff arwain at arferion annïogel, a rhoi'r cleifion mewn mwy o berygl, felly dylai pob cyflogwr anelu at sicrhau bod ei weithlu yn cael hyfforddiant amserol sy'n briodol i'r rolau a gyflawnir.

Cymerwyd camau cadarnhaol i nodi staff y dosbarthwyd eu bod yn wynebu risg uchel ar gyfer COVID-19, ac mae systemau ar waith i gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau lle prynwyd gliniaduron a pheccynau meddalwedd diogel ar gyfer staff sy'n wynebu lefelau risg uchel, neu sy'n cael eu gwarchod, i'w galluogi i weithio'n ddiogel o gartref. Mae hyn yn hanfodol i ddiogelu iechyd a llesiant staff yn ystod pandemig COVID-19.

Yn ôl i'r brig

Adborth



Rydym yn croesawu adborth, felly [cysylltwch](#) os oes gennych unrhyw sylwadau am ein gwaith.

Yn ôl i'r brig

Quality Insight (COVID-19)

Throughout the COVID-19 pandemic, it has been our ongoing commitment at Healthcare Inspectorate Wales (HIW) to check that people in Wales are receiving good quality care, which is provided safely and effectively, in line with the Health and Care Standards and regulations.

This is our second Quality Insight Bulletin, covering the period from November to January. Our first [Quality Insight Bulletin](#) was published on 18 December 2020, and covered the period August to

October 2020.

The purpose of our Quality Insight Bulletin is to highlight the key findings from the work we have undertaken, including engagement with healthcare providers and other intelligence that we hold. The aim is to support improvement within healthcare services by sharing our findings, with a focus on good practice and learning, so that services can take note and adapt accordingly through this unprecedented and challenging time.

These findings are primarily based on our adapted approach to assurance, through our [HIW Quality Checks](#), and capture positive themes, good practice and emerging risks. Our Quality Checks are conducted entirely offsite and focus on three key areas:

- Infection prevention and control
- Governance (specifically around staffing)
- Environment of care.

[Back to top](#)

Activity Summary

